Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Catherine Davies**

**Llanbrynmair**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**01/10/2021**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Ionawr 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

***Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.***

Mae'r plant yn fodlon eu byd; maent yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn mynegi eu hunain yn dda yn unol â'u hoedrannau a'u camau datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau amrywiol, sy'n sicrhau bod y plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu a'u bod yn mwynhau eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn garedig, yn ofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyried eu hanghenion a'r hyn sy'n well ganddynt.

Mae'r safle yn lân, yn ddiogel ac yn darparu lleoedd a chyfleusterau addas i'r plant ddatblygu a chwarae.  Mae'r gwarchodwr plant wedi dilyn canllawiau a gyhoeddwyd ynghylch pandemig COVID-19, ac mae wedi cymryd camau priodol i leihau'r risg bosibl i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau wrth reoli'r gwasanaeth ac mae ganddi gydberthnasau da â'r rhieni.

## Llesiant

Caiff y plant gyfleoedd i wneud eu dewisiadau eu hunain. Er enghraifft maent yn dewis yr hyn y maent am ei wneud a gyda phwy y maent am chwarae. Mae pob ymdrech i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi. Pan fydd plentyn yn gofyn am gael chwarae â phêl benodol, mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn syth ac mae'r plentyn yn fodlon ei fyd. Mae'r plant yn gwbl hapus a bodlon eu byd. Pan gyrhaeddom ni, roeddent yn eistedd o gwmpas y bwrdd gyda theulu'r gwarchodwr plant yn bwyta cinio, yn gyfforddus ddigon yn eu cwmni. Mae'r plant yn dweud wrthym yn hyderus mai chwarae â'r Lego a mynd am dro o gwmpas y fferm maent yn eu hoffi orau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr. Maent yn rhannu eitemau chwarae yn ddiffwdan ac o ofyn iddynt, maent yn rhoi'r teganau i gadw cyn mynd allan i chwarae. Mae'r plant yn dysgu cwrteisi da ac o'u hannog, maent yn cofio dweud os gwelwch yn dda pan fyddant yn gofyn am gael gadael y bwrdd ar ôl cinio.

Mae'r plant yn hapus, ac yn canu wrth chwarae. Maent yn dangos yr 'hofrennydd achub' i ni ac yn dweud wrthym sut mae'r peilot yn mynd i helpu rhywun sydd wedi brifo. Mae'r plant yn gyffrous i fynd allan i chwarae. Maent yn gwenu o gael eu canmol am ddechrau pedlo beic ar eu pen eu hunain ac yn mwynhau dal a thaflu pêl. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Er enghraifft, gwnânt eu gorau i ddefnyddio'r rhaff sgipio ac wedyn byddant yn ffugio mai nadroedd yw'r rhaffau drwy wneud sŵn hisian. Maent yn siarad â'r gwarchodwr plant am aelod o'r teulu a welodd lwynog yn yr ardd y noson flaenorol ac am eu diwrnod allan gyda'i gilydd yr wythnos ddiwethaf yn y treialon cŵn defaid lleol.

Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain a bod yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn bwydo'u hunain amser cinio, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ac yn golchi a sychu eu dwylo ar ôl hynny. Maent yn defnyddio eu dychymyg yn dda wrth chwarae ac yn dweud wrthym eu bod wedi gwneud cerdyn i'w tad ar gyfer Sul y Tadau. Mae iaith y plant yn datblygu gan eu bod yn sgwrsio digon â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant drwy gydol ein hymweliad.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisi COVID-19 priodol ar waith ac esboniodd yr hyn y byddai'n ei wneud pe bai ganddi bryderon am blentyn. Mae'r gwarchodwr plant wedi lawrlwytho'r gweithdrefnau Diogelu Cymru newydd i gyfeirio atynt pe bai angen. Gwelsom fod ei thystysgrif cymorth cyntaf yn gyfredol felly gallai roi cymorth cyntaf sylfaenol pe bai angen. Caiff cofrestrau presenoldeb dyddiol eu cwblhau, ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Gwelwyd bod y rhain yn cael eu cofnodi'n briodol gyda'r rhieni'n llofnodi i gydnabod eu bod wedi cael gwybod am ddigwyddiadau sydd wedi codi yn ystod y dydd. Mae'r rhieni yn darparu pecynnau cinio i'w plentyn, ac mae'r gwarchodwr plant yn cadarnhau ei bod yn cynnig dŵr potel i'w yfed os oes angen. Mae'r drefn ddyddiol yn cynnwys treulio amser yn yr awyr agored, gan roi cyfleoedd i'r plant gadw'n heini a bywiog yn yr awyr agored. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod yn cynnal ymarferion tân ond nad oedd y rhain wedi'u cofnodi.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn parchu'r hyn maent yn ei ddweud. Mae'n eu canmol am wneud rhywbeth yn dda ac yn cydnabod eu help wrth roi'r teganau i gadw. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod gan y plant ddigon i'w wneud i'w cadw'n brysur, gan arwain at ryngweithio cadarnhaol a phlant hapus.

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw am eu teuluoedd ac am ddechrau'r ysgol ym mis Medi. Caiff cofnodion o amser y plentyn gyda'r gwarchodwr plant eu cofnodi mewn dyddiaduron unigol a chaiff y rhain eu rhannu'n ddyddiol gyda'u rhieni. Esboniodd y gwarchodwr plant eu bod wrthi'n dysgu am anifeiliaid ac roedd hi wedi siarad â'r plant am y cŵn roeddent wedi'u gweld yr wythnos flaenorol. Esboniodd ei bod wedi cymryd amser i setlo'r plant ar ôl i gyfyngiadau symud Covid-19 gael eu codi ond roedd pawb wedi dod yn ôl i'r arfer erbyn hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn gwneud yn siŵr fod ganddynt yr hyn y mae arnynt ei angen a'u bod yn hapus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel a gofynnwyd i ni gofnodi ein hamserau cyrraedd a gadael. Gwnaethom gwblhau asesiad risg ar garreg y drws o ran COVID-19 ac roedd gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i sicrhau bod y plant, hi ei hun a'r teulu yn ddiogel. Mae'r safle yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda sy'n lleihau'r risg o groes-heintio. Diwygiodd y gwarchodwr plant ei chofnodion risg ysgrifenedig a dyddiodd y rhain adeg yr arolygiad, gan sicrhau bod y gwaith rheoli risg yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi lle i'r plant symud o gwmpas mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol. Mae'n gwneud yn siŵr bod y plant yn cael ymdeimlad o berthyn gan fod ganddynt fachau lefel isel i hongian eu heitemau personol a rhwydd hynt i chwarae, naill ai yn y gegin neu'r cyntedd. Mae cynllun yr amgylchedd yn hybu annibyniaeth y plant ac mae'r cyfleusterau yn diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, gall y plant sefyll ar stôl camu yn yr ystafell ymolchi i olchi eu dwylo ar eu pen eu hunain. Ceir dewis o adnoddau i annog y plant i archwilio a dysgu drwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd ganddi flwch o adnoddau lliwgar, amrywiol a diddorol, sy'n ymestyn dysgu'r plant yn yr awyr agored. Er enghraifft, gellir dysgu lliwiau drwy ofyn i'r plant daflu bagiau ffa o wahanol liwiau ar gylchoedd plastig cyfatebol. Roedd teganau reidio ar gael i ddatblygu sgiliau corfforol a thŷ bach twt ar gyfer chwarae dychmygus. Rhoddwyd ystyriaeth i brynu llawr rwber diogel fel rhan o'r ardal chwarae awyr agored, wedi'i wneud o deiars tractorau wedi'u hailgylchu.

## Arwain a Rheoli

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio gan gadw sylw a gofal dyledus er mwyn cyrraedd y safonau gofynnol a'r rheoliadau. Ar wahân i fod yn fwy penodol am yr ardaloedd i'w defnyddio gan y plant, mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu anghenion eu plentyn ai peidio. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg, sy'n golygu bod y gwarchodwr plant yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru.

Cwblhaodd y gwarchodwr plant adolygiad o ansawdd y gofal ac roedd y sylwadau gan y rhieni yn nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maen nhw a'u plant yn ei gael. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wedi prynu teganau a chyfarpar newydd yn ystod y flwyddyn, yn ôl yr angen. Dywedodd wrthym ei bod hi'n bwriadu ysgrifennu cofnod asesiad risg tân manylach yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru a anfonwyd ati'n ddiweddar. Mae hyn yn dangos bod gwelliant cadarnhaol wedi'i gynllunio a fydd o fantais i ddiogelwch y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi a holl aelodau ei theulu yn gyfredol. Mae'n parhau i wneud yn siŵr bod ei hyfforddiant gorfodol yn gyfredol a dywedodd wrthym ei bod yn mwynhau gofalu am y plant. Er enghraifft, mae hi wrthi'n chwilio am sesiynau diogelu ar-lein ac am sesiynau i adnewyddu ei thystysgrif cymorth cyntaf yn y dyfodol agos.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n sicrhau ei bod yn cael y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arni ganddynt am anghenion eu plant, a'r hyn sy'n well ganddynt, cyn iddynt ddechrau. Mae'n rhannu gwybodaeth yn ddyddiol gyda'r rhieni. Cafodd hyn ei gadarnhau yn yr holiaduron y gwnaethom eu hanfon atynt yn dilyn yr ymweliad arolygu. At hynny, nododd y rhieni eu bod yn teimlo y gallent drafod materion gyda'r gwarchodwr plant pe bai angen. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant allan am dro o amgylch y gymuned, sy'n helpu i feithrin eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cofnodi'r ymarferion tân sy'n cael eu gwneud gyda'r plant.

A2. Darparu rhagor o wybodaeth yn y datganiad o ddiben mewn perthynas â'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant.